

Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi Rhagfyr 2015 a Ionawr 2016

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus. Mae'r amseroedd yn gywir wrth fod y Deufis yn dod allan, ond os ydych am gael y manylion diweddaraf, beth am ddilyn @BedyddGogTeifi ar Drydar (Twitter)?

6 Rhagfyr

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

13 Rhagfyr

Aberduar	10.00 y bore	Doniau'r eglwys
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	5.00 yr hwyr	Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul

20 Rhagfyr

Aberduar	10.00 y bore	Oedfa Nadolig y bobl ifainc
Brynhafod	4.00 y prynhawn	Oedfa Nadolig y bobl ifainc
Bethel	6.30 yr hwyr	Oedfa Nadolig y bobl ifainc

25 Rhagfyr - Dydd Nadolig

Aberduar	9.00 y bore	
Noddfa	10.00 y bore	

27 Rhagfyr

Bethel	10.15 y bore	Oedfa unedig i Gaersalem, Noddfa a Bethel o dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

3 Ionawr		
Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	5.00 yr hwyr	Carolau golau cannwyll
10 Ionawr		
Aberduar	10.00 y bore	Mrs Delyth Morgans Phillips
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun
17 Ionawr		
Noddfa	10.00 y bore	Oedfa gymun ar gyfer Bethel, Caersalem, a Noddfa o dan ofal y Parchg Judith Morris
Aberduar	10.00 y bore	Mr Rhys Bebb Jones
24 Ionawr		
Aberduar	10.00 y bore	Mrs Beth Davies
Bethel	10.15 y bore	Oedfa unedig i Gaersalem, Noddfa a Bethel dan ofal Mr Rhys Bebb Jones
Seion	2.00 y prynhawn	Oedfa unedig ar gyfer Seion a Brynhafod dan ofal Mrs Doreen Jones
31 Ionawr		
Brynhafod	10.30 y bore	Oedfa unedig i'r Cylch
Rhaghysbys:		
7 Chwefror		
Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

Hefyd oedfa eciwmenaidd Llambed, yn Noddfa am 7 ar 21 Ionawr.

Llongyfarchiadau i Noddfa a Brynhafod ar eu gweithgareddau newydd y tymor hwn: yn Noddfa cawsom Oedfa Deuluol addolgar ond hefyd yn hawdd i'w mwynhau (yr un nesaf 28 Chwefror am 5); ac mae Clwb Hwyl Brynhafod eisoes yn draddodiad - yr un nesaf ar 28 Ionawr am 6.

Diolch i bob un sy'n trefnu dyblygu a dosbarthu'r *Deufis*.

Nadolig Llawen a

Blwyddyn Newydd Dda

Dathlwn y Nadolig gyda'n gilydd! Cofiwch am yr oedfaon arbennig:

Aberduar: 7fed o Ragfyr, chwiorydd Aberduar, Rhydybont ac eglwys Anglicanaidd Llanybydder, yn y festri am 1.30 y prynhawn; Oedfa'r bobl ifainc ar 20fed o Ragfyr am 10; Oedfa bore'r Nadolig ar gyfer **Aberduar, Seion a Brynhafod** am 9.

Bethel: 20fed o Ragfyr, oedfa'r bobl ifainc am 6.30.

Brynhafod: 20fed o Ragfyr, oedfa'r bobl ifainc am 4.

Noddfa: 13eg o Ragfyr, oedfa Nadolig yr Ysgol Sul am 5; Oedfa bore'r Nadolig ar gyfer **Bethel, Caersalem a Noddfa** am 10; Oedfa garolau golau cannwyll ar y 3ydd o Ionawr am 5.

A llongyfarchiadau hefyd i Ann a Delyth, Noddfa, ar eu gwaith fel cydawduron Gwerslyfr Ysgol Sul ar gyfer Beibl Gweithgaredd Bywyd Iesu. Siwr bydd athrawon Ysgol Sul drwy Gymru yn croesawu'r llyfr.

Ysgol Sul Noddfa
Daeth cynulliad teilwng iawn ynghyd i Noddfa ar 8 Tachwedd i oedfa ddiolchgarwch yr Ysgol Sul. Braf oedd gweld 20 yn cymryd rhan yn amrywio o 4 i 18 oed a hefyd 7 o'r Mamau a phawb yn rhoi o'u gorau wrth ddiolch i Dduw am ei holl fendithion a chofio hefyd am y rhai llai ffodus a hynny trwy gyfrwng darlleniadau o'r Beibl, gweddïau, unawdau, grwpiau canu a llefaru ynghyd â sgyrsiau llawn hiwmor ond hefyd yn cynnwys neges bwysig i bawb. Hyfryd oedd gweld tri aelod newydd o'r Ysgol Sul yn cymryd rhan yn llawn hyder sef Cerys Angharad o Bencarreg, Trystan Bryn o Bumsaint a Trystan Wyn o Silian.

Hoffwn ddatgan fy ngwerthfawrogiad i'r plant, y bobol ifanc a'u Rhieni am eu cydweithrediad wrth baratoi'r oedfa, am eu cyfraniadau i'r Banc Bwyd ac am bob cymorth a chefnogaeth yn ystod y flwyddyn gan sicrhau cyfnod arall llewyrchus a llwyddiannus i'r Ysgol Sul.

Cynhelir ein gwasanaeth Nadolig ar 13 Rhagfyr a'r parti yn dilyn.
(Diolch i Janet am yr adroddiad hwn.)

Astudiaeth Feiblaidd
Dewch i rannu yn yr astudiaethau Beiblaidd ar aelwyd y Gilfach drwy wahoddiad Ann a Densil, o dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan. Mae'r cyfarfodydd hyn am 7.15 yr hwyr.

1 Rhagfyr:
Marc pennod 3, adnodau 13—35 a phennod 4, adnodau 1—18
15 Rhagfyr:
Marc pennod 4, adnodau 21—41 a phennod, adnodau 1—20
(A sylwadau o *Meeting God in Mark,* gan Rowan Williams)

Croeso i bawb!

Cylch Darllen
Bydd y Cylch Darllen yn cwrdd i barhau thema 'disgyblion Iesu', am 10.30 yn festri Noddfa ar y dyddiadau hyn:

9fed o Ragfyr, a'r testun fydd Mathew pennod 9 adnodau 9—13 (Mathew)

13eg o Ionawr, pan fyddwn yn edrych ar Luc: 9: 51—56, a Actau 12: 1—2 (Iago). Croeso i bawb, i ddarllen, i drafod, uwchben paned.

Newyddion etc i'r gweinidog erbyn **16 Ionawr,** Galilea, 14 Cae Coedmor, Cwmann SA48 8EH, 01570 423442, jilltomos@tesco.net